Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Pwllglas
# Neuadd y Pentref
# Pwllglas
# Rhuthun
# LL15 2PB

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/05/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Pwllglas, sy'n cwrdd yn neuadd bentref Pwllglas, ger Rhuthun, yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae'r lleoliad yn agor am ddau fore'r wythnos rhwng 9.20 ac 11.20 y bore. Mae'r lleoliad yn cydweithio'n agos iawn gyda Chylch Meithrin Rhuthun, sy'n agor ar dri bore arall yr wythnos. Mae'r ddau leoliad dan ofal yr un arweinydd.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 26 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy a hanner a phedair oed. Ar hyn o bryd, mae mwyafrif y plant yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu.

Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac mae tua hanner ohonynt yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tri ymarferydd cymwysedig gan gynnwys yr arweinydd. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Mehefin 2010.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Hydref 2015 a gan Estyn ym mis Tachwedd 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- y ddarpariaeth i ddatblygu'r Gymraeg yn fuddiol iawn ac yn effeithio'n gadarn ar fedrau llafar y plant
- bron pob un o'r plant yn dangos diddordeb a chymhelliant yn eu dysgu
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch at yr ymarferwyr a'i gilydd
- ymarferwyr yn gweithredu gweithgareddau difyr a diddorol i'r plant, sy'n eu cymell i ddysgu'n gynhyrchiol
- yr addysgu'n llwyddo i effeithio'n gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant
- trefniadau effeithlon gan y lleoliad i ofalu'n gydwybodol am blant
- ymarferwyr yn defnyddio adnoddau'n bwrpasol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion y plant tu fewn i'r adeilad

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn defnyddio gweithdrefnau sefydlog i sicrhau cyfeiriad clir i waith y lleoliad, er mwyn gwella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- yr arweinydd yn diffinio'n glir y cryfderau sy'n bodoli yn y lleoliad a'r ardaloedd sydd angen eu gwella
- parodrwydd yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli i weithredu ar y meysydd i'w gwella yn elwa'r ddarpariaeth a gwella deilliannau'r plant
- trylwyredd a manylder y pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn i arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad
- defnydd deallus o wasanaethau cymorth yn effeithio ar y ddarpariaeth yn bwrpasol
- partneriaethau pwrpasol gyda rhieni, gofalwyr, yr ysgol ac asiantaethau allanol yn cefnogi'r profiadau dysgu a'r addysgu'n llwyddiannus

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y cynllunio'n ddigon heriol i ymestyn medrau ysgrifennu y plant mwyaf galluog hyd eithaf eu galluoedd

A2 Gweithredu ar ganfyddiadau'r asesu i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol

A3 Gwella'r adnoddau yn yr awyr agored a'r defnydd o'r ardal allanol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau o'u mannau cychwyn. Mae llawer yn gweithio'n ddiwyd ar dasgau, gan ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn hyderus, fel canu hwiangerddi gyda meicroffon a rhifo blociau i adeiladu tyrrau i greu cestyll.

Mae llawer o'r plant yn siarad yn glir ac yn sicrhau bod oedolion a phlant eraill yn eu deall. Maent yn ymateb yn dda i gwestiynau yn ystod sesiynau torfol wrth wrando ar stori ar ddarganfod wyau Pasg. Mae llawer yn cynnal sgyrsiau deallus gydag oedolion a'i gilydd wrth greu siapiau anifeiliaid o does. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac esboniadau gan eraill yn ystyrlon ac yn gweithredu arnynt yn brydlon a phwrpasol. Mae hyn yn amlwg pan fyddant yn peintio lili wen fach a chennin fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Mae llawer o'r plant yn mynegi eu hemosiynau yn synhwyrol ar lafar, wrth iddynt gyfleu eu teimladau ac os ydynt yn hapus, yn drist neu wedi blino. Maent yn mynegi eu barnau'n fwriadus wrth gydrofio tywod i lanw bwced ac aros eu tro ar feiciau yn y neuadd.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac maent yn deall pwrpas y testun a'i gyfatebiaeth â'r lluniau. Maent yn trafod cynnwys llyfr a threfn llythrennau'r wyddor gyda'i gilydd ac ymarferwyr yn effeithiol. Maent yn trafod cymeriadau a digwyddiadau yn hyderus gydag oedolion a chyfoedion, fel rôl y gwningen ar helfa drysor. O ganlyniad, maent yn trin llyfrau fel darllenwyr naturiol ac yn ymateb â diddordeb i gynnwys storïau amrywiol.

Mae llawer o'r plant yn gwneud marciau yn effeithiol. Maent yn mwynhau profiadau ysgrifennu cynnar ac yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel paent, sialc a chreonau lliwgar i ddechrau eu hysgrifennu cynnar. Mae tua hanner y plant yn dechrau adnabod eu henwau eu hunain yn gywir. Fodd bynnag, nid yw'r plant mwyaf galluog yn ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau yn annibynnol yn unol â'u galluoedd. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y plant hyn o ddiben ysgrifennu yn y cyd-destunau cywir heb ddatblygu'n llawn.

Mae llawer o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn ddeallus ac mewn cyd-destunau perthnasol. Maent yn cyfrif, yn adnabod ac yn enwi rhifau hyd at bump yn hyderus gydag ychydig ohonynt yn rhifo a didoli gwrthrychau hyd at ddeg yn fedrus. Mae llawer o'r plant yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau mathemategol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio tafol yn llwyddiannus i gydbwyso gwahanol feintiau o silindrau pren a threfnu trefnolion yn wybodus, o'r cyntaf i'r trydydd, wrth linellu am fyrbryd a diod.

Mae llawer o'r plant yn deall sut i grwpio gwrthrychau yn ôl maint, siâp a lliw yn gywir. Maent yn cymharu siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn yn hyderus, fel cymharu llun o flodyn ar bapur gyda chenhinen bedr go iawn yng nghyntedd y neuadd. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gallu esbonio'n ddeallus y gwahaniaeth rhwng cyfaint blychau penodol, fel bwced sy'n llawn, yn wag neu'n hanner llawn.

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn dechrau defnyddio technoleg yn effeithiol. Maent yn manteisio ar raglenni addysgol ac apiau’n dda. Mae hyn yn cynnwys defnyddio llechi electronig a thrwy dasgau â theganau electronig a chwaraewyr cryno ddisgiau. O ganlyniad, maent yn datblygu eu medrau TGCh a’u medrau echddygol manwl yn llwyddiannus.

Mae llawer o’r plant yn datblygu medrau meddwl craff trwy weithgareddau diddorol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a’r safonau y maent yn eu cyflawni. Er enghraifft, maent yn gweithio’n ddeallus gydag eraill i baratoi’r gegin ar gyfer amser te, gan benderfynu ar sut i osod y bwrdd, pa lestri sydd ar gael a pha fwyd i’w weini.

Mae bron pob un o’r plant yn hoffi gwrando ar gerddoriaeth ac maent yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn y Gymraeg. Mae’r rhan fwyaf yn defnyddio’u medrau corfforol yn effeithiol. Maent yn gyrru o amgylch y neuadd yn fywiog ar feiciau ac yn symud yn frwdfrydig i gyfarwyddiadau’r ymarferwyr wrth ddynwared gofodwr yn gwisgo ac yna hedfan i’r gofod.

## Lles: Da

Mae bron pob un o’r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu. Mae’r rhan fwyaf yn canolbwyntio’n gydwybodol yn ystod eu tasgau a’u chwarae digymell. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd, fel pan fyddant yn taro drwm a thambwrîn i greu synau gwahanol. Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn ymroi’n llwyr i weithgareddau grŵp ac yn dyfalbarhau ar dasgau a ddarperir iddynt yn llwyddiannus, fel lliwio’r ddraig yn goch â chreon a thorri o gwmpas llun blodyn yn ofalus â siswrn. O ganlyniad, maent yn barod iawn i rannu adnoddau a llyfrau ac yn gweithio’n synhwyrol gyda phlant eraill yn yr ardaloedd dysgu.

Mae bron pob un o’r plant yn uniaethu’n dda ag oedolion ac ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad a phan fyddant yn gadael. Maent yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch at yr ymarferwyr a’i gilydd. O ganlyniad, mae bron pob un yn gwrando’n ofalus ar yr ymarferwyr, er enghraifft wrth iddynt drafod y rhifau sydd ar y wyau yng nghorff yr iâr fawr a golchi eu dwylo ar ôl peintio.

Mae rhan fwyaf y plant yn gwneud dewisiadau synhwyrol yn ystod chwarae rhydd. Maent yn mynegi barn a gwneud dewisiadau personol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn penderfynu symud o un ardal chwarae i un arall yn annibynnol tu mewn i’r adeilad ac yn gwisgo ffedogau eu hunain i beintio. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o’r plant yn ddysgwyr hyderus a phenderfynol ac yn deall bod hawl ganddynt i ddefnyddio’u hamser rhydd i fanteisio ar nifer o brofiadau dysgu ysgogol.

Ar ôl defnyddio’r toiled, chwarae’n greadigol a gweithgareddau anniben, mae bron pob un o’r plant yn golchi eu dwylo’n drylwyr, heb lawer o anogaeth gan yr ymarferwyr. O ganlyniad, maent yn datblygu eu hymwybyddiaeth o hylendid a’i bwysigrwydd i gynnal bywydau iach a chyfrifol yn llwyddiannus.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
| --- | --- |

## Profiadau dysgu: Da

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau difyr a diddorol ar gyfer y plant yn ddyddiol. Mae hyn yn cymell y plant i ddysgu’n bwrpasol trwy dasgau ymarferol.

Mae cydweithrediad yr ymarferwyr a'r cyfleoedd i gynnig syniadau i ymestyn profiadau'r plant yn sicrhau gweithgareddau buddiol. Maent yn gymorth ar y cyfan i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant. Mae gweithgareddau rhifedd a'r cyfleoedd i ddefnyddio cyfarpar TGCh yn addysgol yn amlwg ar draws y lleoliad, fel yn yr ardal adeiladu. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i'r plant mwyaf galluog ymestyn eu medrau ysgrifennu hyd eithaf eu galluoedd, trwy ymarfer ffurfio llythrennau a rhifau'n annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n ennyn diddordeb y plant yn bwrpasol, ar y cyfan. Mae'r cynlluniau cynnil yn canolbwyntio ar ddiddordebau a dewisiadau'r plant yn llwyddiannus, trwy nodi pa weithgareddau maent yn hoffi neu'n gweld yn anodd. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn deillio'n ddigon clir o asesiadau unigolion i'w herio ymhellach. O ganlyniad, nid yw'r ymarferwyr yn cynllunio'n drwyadl ar gyfer y dyfodol, ar ôl iddynt ddiffinio'r camau nesaf yn nysgu'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn gweithredu'n fwriadus i wella medrau corfforol a chreadigol y plant. Er enghraifft, maent yn galluogi'r plant i yrru beiciau yn y neuadd a'r awyr agored a chreu gwrthrychau o'u dychymyg eu hunain, fel cywion allan o does a phlu.

Mae tasgau parhaus tu fewn i'r adeilad yn datblygu medrau'r plant yn effeithiol wrth iddynt ddatrys problemau yn rheolaidd. Enghreifftiau effeithiol o hyn yw gadael y plant i greu carden Santes Dwynwen a dilyn cyfarwyddiadau i symud dyfais electronig. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i gynnig eu syniadau i ddatrys problemau'n llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol tuag at frwdfrydedd y plant wrth iddynt ddysgu trwy chwarae, y tu fewn i'r adeilad.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu medrau llafar Cymraeg yn fuddiol iawn i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn fodelau da o'r iaith. Maent yn cynorthwyo'r plant sy'n dechrau dysgu'r iaith yn bwrpasol. Yn ogystal, maent yn ymestyn geirfa a phatrymau iaith y plant sy'n rhugl yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddefnyddio'r iaith gymaint ag y bo modd trwy weithgareddau a thrafodaethau ystyrlon. Maent yn herio a holi'r plant yn gyson yn yr ardaloedd dysgu ac mae eu holi synhwyrol a phatrymau iaith cyson yn cymell y plant i ymateb yn ddeallus a phrydlon. O ganlyniad, mae llawer o'r plant yn ymateb â geiriau ac ymadroddion cyfarwydd yn fuan ar ôl cychwyn yn y lleoliad. Mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r plant o'r iaith yn datblygu'n gyflym ar lafar.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, mynychu'r eisteddfod leol, coginio cawl a phobi cacennau traddodiadol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i blant ddefnyddio offer TGCh, fel teganau a llechi electronig, meicroffonau a chwaraewr cryno ddisgiau. Yn ogystal, mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu eu medrau TGCh yn ddeallus, drwy ddefnyddio meddalwedd addysgol ac apiau yn bwrpasol ar lechen.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Maent yn cynnwys ymweliadau i'r goedwig leol a'r siop gymunedol gerllaw'r neuadd i brynu nwyddau ar gyfer byrbrydau'r plant. Mae ymwelwyr fel swyddogion y gwasanaeth tân, nyrs a ffermwyr ag oen a chywion yn addysgu'r plant am rolau pobl yn eu milltir sgwâr yn llwyddiannus.

**Addysgu: Da**

Mae'r arweinydd yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant. Mae hi'n wybodus ynglŷn â gofynion y cyfnod sylfaen ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'r ymarferwyr eraill. O ganlyniad, mae'r addysgu'n effeithiol ac yn effeithio'n gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant.

Ar y cyfan, mae disgwyliadau uchel gan yr ymarferwyr ar gyfer y plant dan eu gofal. Maent yn ymyrryd yn bwrpasol ym mhrofiadau a chwarae'r plant i'w hysgogi a'u cymell i lwyddo. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod cymhelliant y plant yn uchel a'u hawydd i wella'u gwaith yn frwd. Adlewyrchiad clir o hyn yw'r ffordd y mae'r plant yn trafod eu lluniau wrth beintio ar isl a grwpio siapiau tebyg cyn adeiladu twr neu orffen jig-so.

Mae'r holl ymarferwyr yn annog y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn gyson. Maent yn defnyddio holi'n bwrpasol i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Er enghraifft, maent yn trafod rhai o nodweddion y Pasg fel wyau a chywion yn ddoeth ac yn trefnu cyfarpar mathemategol yn annibynnol i gyfateb i'r rhifau dan sylw. Mae'r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae. Enghreifftiau gweithredol o hyn yw'r cyfleoedd i blant arbrofi trwy chwilio am gywion yn y tywod i gyrraedd cyfanswm a chreu blodyn trwy ddefnyddio glud a phapur sidan.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol a diogel. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus ym mhob gweithgaredd ac yn ategu at amgylchedd gweithgar a llewyrchus. Maent yn cyfathrebu mewn ffyrdd cynnes a chyfeillgar â'r holl blant, sy'n hybu brwdfrydedd yn eu dysgu'n llwyddiannus.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn ddefnyddiol. Mae'r dystiolaeth yn cyfatebu'n gywir â deilliannau plant unigol gan ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen, wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad. Mae'r holl ymarferwyr newydd ddechrau cofnodi'r asesiadau dyddiol yn fwy rheolaidd a chyson. Maent yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Maent yn defnyddio asesiadau dyddiol i nodi'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio i weithredu ar eu canfyddiadau wrth gynllunio i'r dyfodol ar gyfer unigolion yn ddigon trwyadl.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson ar lafar am gyflawniadau eu plant. Mae deialog dyddiol yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr am eu plant. Ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, mae'r lleoliad yn darparu llyfryn a chofnodion i'r ysgol leol ar gynnydd y plant, sydd hefyd ar gael i'r rhieni a'r gofalwyr os dymunant eu gweld.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau pwrpasol gan y lleoliad i gefnogi iechyd a lles y plant. Maent yn synhwyrol ac yn cyfrannu'n ystyrlon at ddatblygiad y plant ac yn cefnogi eu dysgu'n llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn

defnyddio sesiynau grŵp yn ddoeth i ganolbwyntio ar deimladau plant a’r modd y maent yn trin pobl eraill. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch yn effeithiol. Mae’r arferion dyddiol a rheolaidd yn fuddiol i ethos cyffredinol y lleoliad ac yn cyfrannu at weithgareddau sy’n cymell y plant i ddysgu’n gynhyrchiol.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cyson i blant fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo’n ddyddiol. Mae hyn yn creu llonyddwch wrth i’r plant eistedd i wrando’n astud ar oedolion yn ystod sesiynau torfol a phwysleisio’r ffaith fod cyfeillgarwch yn bwysig.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd defnyddiol ac ymarferol i’r plant gasglu eu bwyd ac arllwys eu diod, sydd o fudd i’w datblygiad annibynnol. Mae’r plant yn cymryd eu tro’n gwrtais wrth fwyta’u byrbrydau o amgylch y bwrdd bwyta. O ganlyniad i’r arferion cadarn hyn, mae’r ymarferwyr yn atgyfnerthu’r neges gyson fod dweud diolch am fwyd a diod yn arfer gwrtais a pharchus.

Mae’r lleoliad yn hybu bwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus ac mae’r plant yn deall bod ffrwythau, llysiau a chadw’n heini yn rhan bwysig o ddiet synhwyrol a bywydau iachus. Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, plastig a cherdyn yn y lleoliad, a chompostio bwyd yn yr ardal allanol. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae’r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy’n dileu unrhyw fath o aflonyddwch ac ymddygiad afresymol. O ganlyniad, mae’r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni’r oedolion. Mae’r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae’r ymarferwyr yn cymryd gofal cydwybodol o’r plant pan fyddant yn cyrraedd a gadael. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r arweinydd yn cofnodi anghenion dysgu plant yn effeithlon pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae’r ymarferwyr yn adolygu cynnydd y plant yn rheolaidd ac yn gweithredu i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae’r lleoliad yn defnyddio cymorth ac arweiniad yr awdurdod lleol a gwasanaethau arbenigol i gefnogi unigolion bregus yn ôl yr angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ymarferwyr yn atgoffa’r plant yn gyson ein bod ni’n byw mewn gwlad a chymdeithas sy’n cydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae hyn yn arfer gyson yng ngwaith dyddiol y lleoliad ac yn hyrwyddo’r ethos cadarnhaol sy’n bodoli ynddo. Mae’r gweithgareddau dyddiol yn atgyfnerthu’r athroniaeth hon yn llwyddiannus ac mae agweddau synhwyrol y plant at eraill yn adlewyrchiad cadarn o’r ddarpariaeth effeithiol.

Mae’r lleoliad yn dathlu Diwali ac yn edrych ar fywydau pobl yng ngwledydd tramor fel Nepal a’i brif ddinas, Kathmandu. Mae’r ymarferwyr yn trafod storïau moesol o Affrica gyda’r plant ac yn herio’r plant i ystyried beth sy’n debyg neu’n wahanol trwy gymharu doliau o wahanol ddiwylliannau. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn addysgu’r plant am wahanol wyliau a diwylliannau’r byd yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau mewnol yn llwyddiannus i fodloni anghenion y plant a gofynion y cyfnod sylfaen.  Mae'r ymarferwyr yn defnyddio ystod eang o adnoddau ymarferol yn bwrpasol mewn gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi dysgu yn yr amgylchedd dan do.  Maent yn caniatáu i blant ddefnyddio'r cyfarpar yn annibynnol, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus tuag at hyrwyddo eu hymdeimlad o gyfrifoldeb am eiddo pobl eraill.

Mae'r amgylchedd dysgu dan do yn lân ac mae'r adeilad mewn cyflwr da ac wedi'i gynnal yn gydwybodol.  Mae'r ymarferwyr yn trefnu'r ardaloedd dysgu'n synhwyrol i greu amgylchedd dysgu dan do sy'n ddifyr a diddorol.  Maent yn annog y plant i symud o un ardal ddysgu i'r llall heb lawer o anogaeth, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddarparu amrywiaeth o brofiadau ymarferol iddynt.  Yn ogystal, mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau cymunedol yn bwrpasol.  Mae hyn yn cynnwys y pentref a'r goedwig yn achlysurol, sy'n ategu at ddarpariaeth y lleoliad yn effeithiol ac yn cyfoethogi'r cwricwlwm.

Mae'r ymarferwyr yn tyfu blodau gyda'r plant mewn cartonau llaeth a llysiau mewn potiau yn yr ardal allanol, sy'n addysgu'r plant am dyfiant planhigion yn effeithiol.  Mae'r defnydd o'r ardal hon ar gyfer gweithgareddau bywiog, fel gyrru beiciau ac ymchwilio i fyd natur, yn addas ar gyfer datblygu medrau'r plant.  Mae'r lleoliad yn cael rhyddid i ddefnyddio'r ardal allanol fel y mynent gan bwyllgor y neuadd.  O ganlyniad, mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli gynlluniau datblygu ar gyfer gwella'r ardal allanol.  Maent newydd ennill grant ariannol i ddechrau ar y gwaith hwn.  Fodd bynnag, nid yw'r defnydd presennol o'r ardal allanol yn sicrhau digon o gyfleoedd i'r plant ddatblygu'u holl fedrau yn ddigon cyson yn yr ardal tu allan.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae'r arweinydd yn cynnal arferion rheolaidd y lleoliad yn bwrpasol.  Mae hi'n hyrwyddo gwelliannau cyson a dathlu llwyddiannau'r plant yn fwriadus.  Mae ei gweledigaeth effeithiol, ynghyd â rhannu'r ddarpariaeth gyda lleoliad cyfagos, yn sicrhau bod deilliannau'r plant, yr addysgu a'r gofal yn llwyddiannus.

Mae'r arweinydd a'i chydweithwyr yn canolbwyntio'n frwd ar wella safonau'r plant trwy adeiladu perthnasoedd agos gyda nhw a'u rhieni ac addysgu'n heriol.  Mae hyn yn bodloni anghenion y plant yn effeithiol ac yn hyrwyddo eu cyflawniadau a'u cynnydd personol yn ddeallus.  Maent yn gweithio'n ddiwyd fel tîm ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran eu hunain a'r plant.  O ganlyniad, mae'r holl ymarferwyr yn cymell y plant yn ddyddiol i wella mewn ffyrdd synhwyrol a chefnogol, yn enwedig ar lafar yn y Gymraeg.

Mae'r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a chyfredol am y lleoliad i wella'r ddarpariaeth.  Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys defnyddio proffil y cyfnod sylfaen i adnabod mannau cychwyn y plant yn gywir ynghyd â hyfforddi'r holl ymarferwyr i asesu'n well i dargedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant.  Yn ogystal, mae'r arweinydd newydd lwyddo i ennill grant gan archfarchnad leol i ddatblygu'r ardal allanol.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar greu ardaloedd dysgu difyr a diddorol i'r plant. O ganlyniad, maent yn llwyddo i greu newidiadau buddiol i'r heriau wythnosol, tu fewn i'r adeilad, i gyd-fynd â'r themâu gwahanol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r plant, yn enwedig eu medrau siarad a gwrando. Mae'r arweinydd yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd, rhifedd a TGCh, i wella medrau'r plant cyn iddynt ddechrau'r ysgol. Mae'r arweinydd yn gweithio'n agos iawn gydag athrawes gyswllt yr ysgol leol i gynllunio'r cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn cydweithio i gynnig gwahanol brofiadau i'r plant, i sicrhau nad ydynt yn ailadrodd gweithgareddau.

Mae'r arweinyddiaeth, sy'n cynnwys pwyllgor rheoli cefnogol, yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn effeithiol. Mae'r pwyllgor rheoli yn asesu perfformiad yr arweinydd yn flynyddol ac mae'r arweinydd ynghlwm â gwerthuso'r ymarferwyr newydd ar hyn o bryd. O ganlyniad, mae'r staff cyfan yn deall eu rolau'n llawn trwy werthusiadau a thrafodaethau cyson.

Mae'r pwyllgor rheoli'n cefnogi a herio'r lleoliad yn synhwyrol i gynnal a gwella'r arferion sefydlog a datblygu'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach. Maent yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am waith a digwyddiadau'r lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd, fel cyngherddau a boreau coffi. Mae'r pwyllgor rheoli ymroddgar yn cyfarfod yn gyson i drefnu gweithgareddau i gynyddu'r incwm er mwyn gwella'r adnoddau yn y lleoliad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunanarfarnu yn rhan annatod o weithdrefnau rheolaidd y lleoliad. Mae'r arweinydd yn cofnodi manylion am safonau'r plant ac ansawdd y ddarpariaeth yn gyson, trwy ddefnyddio gweithdrefnau'r awdurdod lleol yn fwriadus. Mae hyn yn cynnwys proffiliau meintiol sy'n mesur effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn fuddiol. Mae'r pwyllgor rheoli'n cymryd rhan weithredol yn y broses. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r lleoliad a'r wybodaeth i adnabod y blaenoriaethau cywir ar gyfer gwella.

Mae'r cydweithio rhwng yr ymarferwyr, y pwyllgor rheoli, athrawes gyswllt yr ysgol, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin, yn effeithiol. Mae'r wybodaeth a gesglir yn rheolaidd, yn ogystal ag ymweliadau ac arfarniadau gan yr asiantaethau allanol, yn cyfrannu'n bwrpasol at y gweithdrefnau hunanarfarnu. Effaith y gefnogaeth a'r parodrwydd i wella yw bod y lleoliad yn blaenoriaethu anghenion yn brydlon ac yn ariannu unrhyw gostau'n effeithiol cyn dechrau'r newidiadau. Mae hyn yn cynnwys gwella'r ardal allanol a chynnal cyfarfodydd ffurfiol i rieni i drafod cynnydd eu plant. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn briodol i bennu blaenoriaethau synhwyrol yn y cynllun gwella.

Mae'r ymarferwyr yn cytuno ar y blaenoriaethau ac yn newid eu ffyrdd o weithio ac agweddau ar y ddarpariaeth yn effeithlon i ymateb i'r anghenion a nodwyd yn y cynllun gwella. Ar y cyfan, mae'r blaenoriaethau yn y cynllun gwella yn deillio'n uniongyrchol o broses hunanarfarnu'r lleoliad.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n blaenoriaethu gwariant yn bwrpasol yn unol â'r targedau ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn trefnu hyfforddiant i'r staff ar sut i weithredu cynlluniau iaith defnyddiol, dan arweiniad yr ysgol, yr awdurdod lleol a

Mudiad Meithrin.  O ganlyniad, mae'r holl ymarferwyr yn gweithredu'n effeithiol yn unol â'u cyngor.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a safonau'r plant.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau strategol effeithiol.  Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n bwrpasol gyda'r partneriaid hyn i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant.

Mae cyswllt cadarnhaol iawn ag athrawes gyswllt yr ysgol.  Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn derbyn cyngor ac arweiniad gwerthfawr oddi wrthi hi fel rhan o gynllun cefnogi'r awdurdod lleol.  Mae'r athrawes gyswllt yn ymweld â'r lleoliad yn wythnosol.  O ganlyniad, mae ei mewnbwn wedi arwain at welliannau mewn sawl agwedd o'r ddarpariaeth.  Er enghraifft, mae'r ymarferwyr wedi gwella'r drefn o asesu'n ddyddiol a chreu gwelliannau yng ngwaith llafar y plant yn y Gymraeg.

Mae cefnogaeth gadarn yn bodoli i'r trefniadau pontio rhwng y lleoliad a'r ysgol leol ac mae trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau'r plant yn effeithiol.  Yn ogystal, mae'r lleoliad a'r ysgol yn uno i gynnal cyngherddau yn y neuadd bentref, sy'n cefnogi ymwybyddiaeth y plant o fywyd a staff yr ysgol yn dda.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad.  Maent yn eu hysbysu'n rheolaidd, drwy gylchlythyron, hysbysfwrdd gweithredol a chyfryngau cymdeithasol, am bob agwedd ar waith y lleoliad.  Mae'r lleoliad yn annog barnau'r rhieni ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson.  Enghraifft o hyn yw'r parodrwydd i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu'n well â rhieni a'r bwriad i gynnal cyfarfodydd blynyddol i drafod cynnydd y plant, sydd yn darged yn y cynllun gwella.

Mae cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu'r plant yn llwyddiannus.  Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau i godi arian, fel cyngherddau a gwerthu cacennau yn ystod boreau coffi.  Mae'r lleoliad yn mynychu'r eisteddfod leol ac yn cael cefnogaeth fuddiol wrth gynnig am nawdd a grantiau perthnasol o fusnesau'r ardal.  Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, sy'n meithrin tynerwch a gofal am eraill ymhlith y plant yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin.  Mae'r sefydliadau hyn yn cefnogi dogfennaeth a hyfforddiant yr ymarferwyr yn effeithiol.  Yn ychwanegol, mae ymarferwyr yn cydweithio ag ystod eang o bartneriaid eraill sydd yn gwneud cyfraniadau pwysig at wella'r ddarpariaeth.  Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n darparu hyfforddiant fel cymorth cyntaf, hylendid bwyd ac amddiffyn plant.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r arweinydd yn gwella agweddau ar waith y lleoliad yn effeithiol drwy reoli staff ac adnoddau yn bwrpasol.  Gyda hyfforddiant ac arweiniad cadarn, ac wrth wrando ar eraill yn synhwyrol, mae'n llwyddo i sicrhau bod y gwaith dyddiol o fodloni anghenion y plant yn llwyddiannus.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer gwerthuso gwaith yr arweinydd yn weithredol dan law'r pwyllgor rheoli.  Mae arfarnu gwaith yr ymarferwyr newydd ddechrau gan yr arweinydd.  O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau'n galluogi'r arweinydd a'r ymarferwyr i

ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn effeithlon. Mae arferion da yn bodoli o ran cydweithio pwrpasol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae hyn yn cefnogi'r gwaith papur a gweithdrefnau rheolaethol y lleoliad yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau yn fwriadus i gefnogi'r dysgu. Mae arferion a threfniadau dyddiol y lleoliad yn gyson ac yn sicrhau bod plant yn elwa o brofiadau dysgu diddorol a chadarnhaol tu fewn i'r adeilad. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael mynediad parod i ddigon o adnoddau ysgogol i gefnogi eu dysgu'n effeithiol.

Mae gan y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb, ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn synhwyrol. Maent yn creu gwelliannau rheolaidd trwy drafod ac ariannu cynlluniau ar gyfer gwella yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn sicrhau bod defnydd o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar safonau a lles plant, ynghyd â darpariaeth profiadau dysgu. Yn ogystal, mae'r pwyllgor rheoli yn cefnogi'r arweinydd a'r lleoliad i ennill grantiau i ddatblygu'r lleoliad ymhellach, fel grant diweddar i ddatblygu'r ardal allanol.

Yn gyffredinol, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian oherwydd yr arweinyddiaeth sefydlog a'r effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a deilliannau'r plant.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |